Cofnodion Cyfarfod Statudol Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybïe nos Fercher, Mai 17eg, 2017 am 6.30 yr hwyr.

Presennol

Cynghorwyr	I. Rh. Llewelyn	Mrs K. Davies	P.H. Roberts
	R. A. Davies	W. D. Evans	B. Rees
	A. Davies	Mrs Ll. Hindley	D. Hopkins
	E. W. Nicholas	A. W. Jones	N. Evans
	Mrs L. Latham	Mrs C. Thomas	D. Nicholas

Ymddiheuriadau

Cynghorwyr	R. A. Davies	A.P. Cooper	C Harris

1.

Croeso Agoriadol

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cynghorydd I. Rh. Llewelyn (y Cadeirydd oedd yn ymadael) a dywedodd iddo fwynhau ei gyfnod fel Cadeirydd y Cyngor ac fe ddymunodd yn dda i'w olynydd yn y Gadair. Cyfeiriodd y Cynghorydd I. Rh. Llewelyn at yr heriau newydd sy'n wynebu'r Cyngor gyda Throsglwyddo Asedau ond bod y Cyngor mewn lle da i sicrhau llwyddiant. Diolchodd i'w gyd-Gynghorwyr am eu cefnogaeth ac i'r staff am barhau gyda'i dyletswyddau gweinyddol mewn ffordd broffesiynol.

2.

Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd

Penderfynwyd penodi'r Cynghorydd Mrs J. E. Collins i'r Gadair a'r Cynghorydd Mrs Karen Davies fel Is-Gadeirydd, ac yna fe'u hurddwyd i'w Swyddi. Camodd y Cynghorydd I. Rh. Llewelyn lawr ac fe gymerodd y Cadeirydd newydd, y Cynghorydd Mrs J. E. Collins, drosodd fel Cadeirydd y Cyngor.

Diolchodd y Cadeirydd I. Rh.Llewelyn am ei waith yn ystod y flwyddyn.

3.

Penodi Pwyllgorau

Cadarnhawyd bod y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Cadeirydd blaenorol yn aelodau o holl bwyllgorau'r Cyngor.

Penderfynwyd ethol y Cynghorwyr isod i wasanaethu ar y Pwyllgorau canlynol:

Pwyllgor Cyllid

Llandybïe: R.A. Davies a D. Hopkins
Saron: Mrs C Thomas a N. Evans
Penygroes: Mrs Ll. Hindley a Mrs L. Latham
Heolddu: I. Rh. Llewelyn

_____
Cadeirydd

Pwyllgor Cynllunio

Llandybïe: W. D. Evans ac E. W. Nicholas
Saron: A. Davies a N. Evans
Penygroes: Mrs Ll. Hindley a P.H. Roberts
Heolddu: gan fod y Cynghorydd I. Rh. Llewelyn yn gyflogedig gan Adran Gynllunio'r Cyngor Sir, penderfynwyd cyfethol y Cynghorydd D. Nicholas i'r pwyllgor.

Pwyllgor Hawliau Tramwy

Llandybïe: B. Rees ac E.W. Nicholas
Saron: Mrs C Thomas ac A. Davies
Penygroes: Mrs Ll. Hindley a P.H. Roberts
Heolddu: I. Rh. Llewelyn

Pwyllgor Datblygu Cymunedol

Llandybïe: B. Rees a D. Hopkins
Saron: A. P. Cooper a N. Evans
Penygroes: Mrs Ll. Hindley a P.H. Roberts
Heolddu: I. Rh. Llewelyn

Pwyllgor Polisi

Llandybïe: D. Hopkins
Saron: C. Harris
Penygroes: P. H. Roberts
Heolddu: I. Rh. Llewelyn

Pwyllgor i godi proffil y Cyngor

Llandybïe: R. A. Davies ac A. W. Jones
Saron: A. Davies a N. Evans
Penygroes: Mrs Ll. Hindley a Mrs. L. Latham
Heolddu: I. Rh. Llewelyn

Pwyllgor Cyflogaeth

Llandybïe: R. A. Davies ac W. D. Evans
Saron: A Davies a N. Evans
Penygroes: P. H. Roberts a Mrs. Ll. Hindley
Heolddu: I. Rh. Llewelyn

_____
Cadeirydd

4.

Cynrychiolwyr ar Gyrff Allanol

Penderfynwyd y byddai'r aelodau canlynol yn cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol:

Grŵp Aman o Gynghorau Lleol: Mrs. K. Davies a N. Evans

Grŵp y Gwendraeth o Gynghorau Lleol: Mrs J. Collins a Mrs Ll. Hindley

Un Llais Cymru, Cangen Caerfyrddin: I. Rh. Llewelyn a Mrs. J. Collins

Un Llais Cymru, Pwyllgor y Cynghorau Mwy o Faint: A. Davies ac I. Rh. Llewelyn fel eilydd

Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Canolbarth Cymru: D. Hopkins

Gofal am yr Henoed Cymru: Mrs. C. Thomas

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: Mrs J. Collins

Homestart Dinefwr: Mrs J. E Collins

Menter Cwm Gwendraeth: Mrs J. Collins a Mrs Ll. Hindley

Menter Bro Dinefwr: Mrs J. E Collins

Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Saron: N. Evans

Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Penygroes: Mrs Ll. Hindley

Corff Llywodraetho Ysgol Gynradd y Blaenau: P. H. Roberts

Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llandybïe: D. W. Hopkins

5.

Dyddiadau cyfarfodydd Cyffredin a Statudol y Cyngor ar gyfer 2017/18

Penderfynodd yr Aelodau y byddai'r cyfarfodydd yn parhau i gael eu cynnal ar nos Fercher olaf pob mis heblaw am Awst a Rhagfyr pan na cheir cyfarfodydd, ac fe fyddai cyfarfodydd ychwanegol yn Ionawr a Medi ar y nos Fercher gyntaf o'r mis. Cynhelir y cyfarfod Statudol yn union cyn y |Cyfarfod Cyffredin ym mis Mai 2018.

6.

Llofnodwyr

Penderfynwyd y byddai'r Cynghorwyr Mrs J. Collins, Mrs Ll. Hindley ac R. A. Davies ynghyd â'r Clerc yn parhau i fod yn llofnodwyr ar gyfer cyfrifon banc a

_____

Cadeirydd

chynilion y Cyngor Cymuned. Cadarnhawyd y byddai angen llofnod y Clerc ynghyd â llofnod dau o'r Cynghorwyr hyn ar gyfer pob gweithrediad

7.

Gan nad oedd unrhyw fater arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 6.50 yr hwyr.

_____

Cadeirydd